# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 4 i 11 Mai 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyllid ar gyfer Awdurdodau Iechyd yng Nghymru

**Peter Rogers:** Beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau bod cyllid awdurdodau iechyd yng Nghymru'n cyfateb i gyllid awdurdodau iechyd yn Lloegr, o gofio mai 6 y cant yw'r cynnydd yn nyraniadau Cymru, ac mai 8 y cant yw'r cynnydd yn Lloegr? (WAQ4167)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae canran y cynnydd cyffredinol ar gyfer dyraniadau 2000-01 awdurdodau iechyd wedi codi i 9.4 y cant yn dilyn arian newydd y gyllideb.

### Awdurdod Iechyd Dyfed Powys (Dyled)

**Nick Bourne:** Pa gynigion y mae Jane Hutt yn eu cyflwyno i ddelio â dyled Awdurdod Iechyd Dyfed Powys? (WAQ4534)

**Jane Hutt:** Mae Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'i bedair ymddiriedolaeth gynhaliol ar fin cwblhau drafft o'u cynlluniau adfer a fydd yn ceisio dychwelyd y rhanbarth at falans ariannol erbyn diwedd 2002-03. Bydd yr awdurdod yn dechrau ad-dalu benthyciadau wedi hynny yn 2003-04, drwy gyfrwng mecanwaith brig-dorri blynyddol y cytunwyd arno'n gorfforaethol.

Yn ddiau, bydd yr adnoddau ychwanegol i faes iechyd a gyhoeddodd y Canghellor yn araith y gyllideb yn cynorthwyo'r NHS yng Nghymru i ddelio â'i broblemau ariannol. Mae cynigion manwl ar gyfer defnyddio'r adnoddau hynny'n cael eu paratoi ond, er hynny, mae'n hanfodol cynnal y momentwm i ddatblygu'r cynlluniau adfer a'u rhoi ar waith.

### Pobl ag Anawsterau Dysgu (Gwasanaethau)

**Owen John Thomas:** Sut wnaiff Jane Hutt sicrhau bod y Cynulliad yn fodlon bod y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu, yn enwedig gofal preswyl, yn addas ar gyfer eu holl anghenion? (WAQ4716)

**Jane Hutt:** Yn ôl Deddf Cartrefi Preswyl 1984 ac arweiniad statudol cysylltiedig, mae awdurdodau lleol Cymru'n gyfrifol am gofrestru ac archwilio cartrefi preswyl ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu gwasanaethau'n parhau i ddiwallu anghenion pobl fel rhan o'u gwaith monitro gwasanaeth/contractau cyffredin, arfarnu a sicrhau gwerth gorau.

Bydd y Mesur Safonau Gofal sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol, yn golygu mai'r Cynulliad fydd rheoleiddiwr ystod eang o wasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys pob gofal preswyl ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, o Ebrill 2002 ymlaen. Bydd rhaid i awdurdodau lleol gofrestru eu cartrefi gofal, a fydd yn atebol i'r un drefn archwilio a gorfodaeth â chartrefi gofal gwirfoddol a phreifat.

### Pobl ag Anableddau Dysgu (Y Broses Asesu)

**Owen John Thomas:** Sut wnaiff Jane Hutt sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn cael gwybodaeth lawn ynghylch pwysigrwydd y broses asesu, eu rôl yn y broses a'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael? (WAQ4717)

**Jane Hutt:** Yn ogystal â'n harweiniad strategaeth a ddosbarthwyd yn eang a'r cyngor a gwybodaeth sydd ar gael gan asiantaethau statudol, mae'r Cynulliad hefyd yn darparu cymorth grant i'r sefydliadau sydd yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth arall i bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Pobl yn Gyntaf Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Mencap yng Nghymru, y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol a Chyngres Sefydlog Mudiadau Gwirfoddol ar gyfer

pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Enghraifft ddiweddar o helpu i sicrhau bod pobl yn cael gafael ar wybodaeth oedd y gefnogaeth a roddodd y Cynulliad i Mencap yng Nghymru ar gyfer llinell ffôn anableddau dysgu rhad ac am ddim a lansiwyd ar 28 Mawrth 2000.

## Lleoliadau Gofal Preswyl Tymor Hir

**Owen John Thomas:** Yn dilyn yr amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran ariannu lleoliadau gofal preswyl yn y tymor hir, a'r effaith ganlyniadol ar flocio gwelyau, a wnaiff Jane Hutt geisio cyflwyno system gyfiawn a theg ledled Cymru? (WAQ4824)

**Jane Hutt:** Mae'r pwnc hwn yn cynnwys materion a ddatganolwyd a materion nas datganolwyd. Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ei fod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn, ar ôl yr adolygiad gwariant presennol, i ymateb i argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar ofal tymor hir. Gyda golwg ar yr ymateb hwnnw, byddwn yn ystyried pa weithredu pellach sydd ei angen yng Nghymru.

## Arian Ychwanegol ar gyfer yr NHS yng Nghymru

**David Davies:** Pryd bydd Jane Hutt yn derbyn yr arian ychwanegol a ddyrennir i'r NHS yng Nghymru o ganlyniad i'r doll dybaco a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2000-01Canghellor y Trysorlys? (WAQ4883)

**Jane Hutt:** Yr oedd y doll dybaco yn rhan o'r £99 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru yn dilyn datganiad cyllideb y Canghellor. Rhoddwyd oddeutu £19 miliwn o'r cyllid ychwanegol hwn i awdurdodau lleol fel rhan o'u dyraniad ar gyfer 2000-01. Mae oddeutu £80 miliwn ar ôl heb ei wario ar hyn o bryd, ac felly mae'r arian hwn ar gael i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwario iechyd yng Nghymru. Sefydlir y rhain ar ôl trafodaethau gyda'r NHS a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Gwelyau o fewn yr NHS

**David Davies:** Faint o welyau sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn yr NHS yng Nghymru a sut y mae'r ffigur yn cymharu â'r ffigur o 1997 ymlaen, wedi'i dorri i lawr yn ôl y chwarter? (WAQ4895)

**Jane Hutt:** Yn y tabl isod, rhoddir yr wybodaeth sydd gan yr NHS mewn perthynas â'r nifer cyfartalog o welyau sydd ar gael yn ddyddiol ym mhob chwarter hyd at y chwarter a ddaeth i ben yn Rhagfyr 1999 (y diweddaraf sydd ar gael).

**Y Nifer Cyfartalog o Welyau sydd ar gael yn Ddyddiol**

| Y Chwarter yn Gorffen | Nifer |
|---|---|
| Mawrth 1997 | 15,340 |
| Mehefin 1997 | 15,185 |
| Medi 1997 | 15,208 |
| Rhagfyr 1997 | 15,132 |
| Mawrth 1998 | 15,193 |
| Mehefin 1998 | 15,008 |
| Medi 1998 | 14,908 |
| Rhagfyr 1998 | 14,815 |
| Mawrth 1999 | 14,857 |
| Mehefin 1999 | 14,878 |
| Medi 1999 | 14,755 |
| Rhagfyr 1999 | 14,694 |

*Ffynhonell: Health Solutions Wales*

## Trin MRSA

**David Lloyd:** A oes unrhyw ganllawiau ar drin MRSA (Staffylococws Awrews sydd yn Gwrthsefyll Methisilin) o fewn yr NHS yng Nghymru ac a yw Jane Hutt yn fodlon ymgymryd i safoni canllawiau o'r fath ledled Cymru yng ngoleuni arfer gorau? (WAQ4899)

**Jane Hutt:** Yn y gorffennol, cyhoeddwyd arweiniad helaeth i'r NHS yng Nghymru, mewn ysbytai ac mewn sefyllfaoedd cartrefi nyrsio ynghylch heintiadau y gellir eu dal mewn ysbytai ac MRSA yn arbennig.

Mae un set penodol o ganllawiau a gyhoeddwyd yn 1998 yn y *Journal of Hospital Infection* (Cyfrol 39, tudalennau 253-290) wedi'i fabwysiadu ledled y DU fel y model ar gyfer yr arfer gorau. Lluniwyd yr arweiniad hwn, 'Revised Guidelines for the Control of Methicillin Resistant Staphylococcus Aureus Infection in Hospitals', gan weithgor sydd yn cynnwys y Gymdeithas Brydeinig er Cemotherapi Gwrthfeicrobaidd, y Gymdeithas Heintiadau Ysbytai a Chymdeithas y Nyrsys sydd yn Rheoli Heintiadau.

Mae'r arweiniad hwn, ynghyd â'r ddau brosiect arall sydd ar y gweill ar hyn o bryd yng Nghymru, sydd yn edrych ar heintiadau nosocomial a chadw golwg benodol ar achosion o MRSA, yn cymryd rhai camau i sicrhau y caiff achosion ysbytai o MRSA eu cadw mor isel â phosibl.

Mae grŵp strategaeth heintiadau ysbytai Cymru yn archwilio rheoli heintiadau ysbytai. Mae enghreifftiau o'r cynlluniau sydd yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd yn cynnwys rhaglen dair blynedd o welliannau a gaiff ei monitro gan y grŵp strategaeth afiechydon heintus, adolygiadau blynyddol ffurfiol gan ymddiriedolaethau iechyd o'u trefniadau hwy i reoli heintiadau a gweithredu gan awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau cadarn mewn lle a fydd yn darparu ar gyfer rhoi trefn glinigol ar waith.

## NHS Direct

**David Lloyd:** A fydd y meddalwedd a ddarperir er mwyn gweithredu NHS Direct ar gael yn Gymraeg, ac os felly, pryd fydd ar gael? (WAQ4900)

**Jane Hutt:** Nid yw'r meddalwedd a ddarperir er mwyn gweithredu NHS Direct ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

## Cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol Gofalwyr

**David Lloyd:** Pryd fydd y strategaeth genedlaethol gofalwyr yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori? (WAQ4901)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd strategaeth genedlaethol gofalwyr y DU, 'Caring about Carers', y llynedd ar ôl ymgynghori'n helaeth, gan bwyso'n drwm ar brofiadau yng Nghymru. Yr ydym wedi ymgynghori ar y cynllun i roi strategaeth gofalwyr ar gyfer Cymru ar waith. Bwriadaf lansio'r ddogfen hon yn ystod wythnos genedlaethol gofalwyr sydd yn dechrau ar 12 Mehefin, yr un pryd â dadl y Cyfarfod Llawn ar grant arbennig i ofalwyr a gynllunnir i roi cymorth ariannol ychwanegol fel y gall gofalwyr gael seibiant.

## Polisi Newydd ar Anabledd Dysgu

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hymgorffori mewn polisi newydd ar anabledd dysgu? (WAQ4904)

**Jane Hutt:** Gwnaf. Mae strategaeth anabledd dysgu'r Cynulliad eisoes wedi'i seilio o gylch yr egwyddorion allweddol fod gan bobl ag anableddau dysgu hawl i gael patrwm bywyd cyffredin yn y gymuned, yr hawl i gael eu trin fel unigolion a'r hawl i gael cymorth a chefnogaeth ychwanegol i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu grŵp ymgynghorol anabledd dysgu i lunio

drafft o fframwaith gwasanaeth ac yr wyf yn siŵr y bydd y grŵp, yn ei waith, yn llawn ystyried sut y mae pobl ag anableddau dysgu yn gallu defnyddio'u hawliau eu hunain neu gyda chefnogaeth. Yn ogystal, rhaid i'r Cynulliad sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth weithredu ei ddyletswyddau.

### Darpariaethau ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu a'u Teuluoedd

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu, ynghyd â'u teuluoedd, yn cael dewis o ran y gwasanaethau a ddarperir iddynt, yn arbennig mewn perthynas â gofal preswyl? (WAQ4905)

**Jane Hutt:** Mae strategaeth anabledd dysgu'r Cynulliad eisoes yn hyrwyddo dewis ac yn hybu'r unigolyn i nodi ffafriaeth, boed hynny mewn perthynas â darpariaeth breswyl neu wasanaethau eraill neu gefnogi unigolyn. Yn y pen draw, yr awdurdod lleol sydd yn penderfynu ar y materion, gan ystyried eu cyfrifoldebau statudol, yr anghenion a nodwyd, barn a ffafriaeth yr unigolyn, barn y teulu/gofalwyr, arweiniad strategaeth anabledd dysgu'r Cynulliad ac ystyriaethau gwerth gorau.

### Tâl Parcio Ceir (Ysbytai)

**David Davies:** Faint o ysbytai sydd yn codi tâl parcio ceir ar gleifion a/neu staff, a pha ysbytai sydd yn gwneud hyn? (WAQ4915)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth am godi tâl parcio mewn ysbytai ledled Cymru'n cael ei chadw'n ganolog. Yr ymddiriedolaethau unigol sydd i benderfynu a ydynt am gyflwyno ffioedd o'r fath mewn ysbytai a'r gyfradd y maent am ei chodi, gan ystyried amgylchiadau lleol.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

### Cyllido Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

**Nick Bourne:** A wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ddatganiad ynghylch cyllido'r ymddiriedolaethau bywyd gwyllt ledled Cymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru? (WAQ4478)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex):** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n darparu cymorth grant i ymddiriedolaethau bywyd gwyllt ledled Cymru at ddibenion bywyd gwyllt a chefn gwlad amrywiol gan gynnwys rheoli a gwella mynediad at warchodfeydd natur i bobl anabl.

Ar gyfer 2000-01, mae'r negodiadau ynghylch lefel y cyllid yn parhau rhwng y cyngor a'r ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, er fy mod yn deall bod tua £165,000 ar gael. Y cyngor sydd i benderfynu sut y mae'n dyrannu ei adnoddau yn y gyllideb a roddir iddo gan y Cynulliad.

### Cael Gwared ar Wastraff Cartref

**Nick Bourne:** Pa gynigion y bydd Sue Essex yn eu cyflwyno ar gyfer cael gwared ar wastraff cartref ar ôl cau safleoedd tirlenwi? (WAQ4529)

**Sue Essex:** Bydd Michael Meacher a minnau'n cyhoeddi'r strategaeth wastraff ar gyfer Cymru a Lloegr yn fuan. Bydd yn nodi'r fframwaith cyffredinol y disgwylir i'r polisi gwastraff ei ddilyn dros yr 20 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, yr wyf eisoes wedi ymroi i ddatblygu strategaeth weithredu fanwl yn 2001-02, a fydd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar amgylchiadau Cymru. Bydd hyn yn cael ei anelu at leihau gwastraff ymhellach, mwy o ailddefnyddio ac ailgylchu, sydd i gyd yn hanfodol i fodloni ein dyletswyddau dan gyfarwyddeb tirlenwi Ewrop.

### Llandrindod (Apêl Cynllunio)

**Nick Bourne:** A yw Sue Essex wedi derbyn unrhyw sylwadau gan bobl ardal Llandrindod ynghylch yr apêl cynllunio ar gyfer bloc o fflatiau ar dir drws nesaf i Rock Park? (WAQ4909)

**Sue Essex:** Cyflwynwyd yr apêl hon i'r Arolygiaeth Cynllunio ar 2 Mehefin 1998 ac mae'n bwrw ymlaen drwy gyfnewid sylwadau ysgrifenedig. Bu un o archwilwyr yr Arolygiaeth yn ymweld â'r safle ddydd Llun 10 Ebrill a chyhoeddir ei benderfyniad gyda hyn.

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan breswylwyr lleol a bydd yr archwiliwr yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad.

### Maint y Llain Glustogi rhwng Safleoedd Cloddio Glo Brig ac Ardaloedd Sensitif

**Nick Bourne:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ynghylch maint y llain glustogi rhwng safleoedd cloddio glo brig ac ardaloedd sensitif, fel yr argymhellir yng Nghanllawiau Cynllunio Mwynau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gyfeirio yn benodol at y canllawiau cyfatebol ar gyfer yr Alban? (WAQ4910)

**Sue Essex:** Mae drafft o Bolisi Cynllunio Arweiniad Cynllunio Mwynau (Cymru), a gyhoeddwyd i ymgynghori arno yn Nhachwedd 1999 a'r sylwadau a dderbyniwyd yn parhau i gael eu hystyried. Pan gaiff hyn ei gwblhau, caiff y Polisi Cynllunio Arweiniad Cynllunio Mwynau (Cymru) ei gyhoeddi, a gobeithir y cyhoeddir drafft o nodyn cyngor technegol am lo tua'r un pryd. Bydd hyn yn mynd i'r afael â materion cynllunio sydd yn ymwneud â glo, gan gynnwys y syniad o leiniau clustogi a'r defnydd o'r offeryn hwn yn yr Alban, a chan ystyried yr holl ffactorau eraill.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968

**David Lloyd:** Pryd fydd Adran 6 Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 yn cael eu dirymu yng Nghymru ac a wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant ddatganiad ar hyn? (WAQ4903)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Gwn y dirymwyd y rheoliad hwn yn Lloegr (ond nid yng Nghymru na'r Alban) ar 1 Chwefror er mwyn dileu cyfyngiadau penodol ar berfformiadau cyhoeddus gan blant. Ar y cyfle cyntaf, bydd Jane Hutt a minnau'n ystyried a ddylid argymell y dylai'r Cynulliad gyflwyno'r newidiadau hyn yng Nghymru, gan ystyried buddiannau'r plant hynny sydd yn dymuno cymryd rhan mewn perfformiadau cyhoeddus a'r angen i ddiogelu eu hiechyd, eu lles a'u haddysg.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997

**Glyn Davies:** Pa bwerau sydd gan yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig neu'r Cynulliad i newid, yn unochrog, Orchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 yng nghyd-destun allforio carcasau mamogiaid cyfan? (WAQ3181)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Yn dilyn fy ateb dros dro ar 17 Chwefror, caniateir allforio carcasau mamogiaid cyfan i ladd-dai penodol yn Ffrainc dan Reoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997 (a wnaethpwyd dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990) yn hytrach na dan Orchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 (a wnaethpwyd dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981). Datganolwyd y rheoliadau i'r Cynulliad. Gellir allforio carcasau heb eu hollti i rai mannau penodol yn Ffrainc yn dilyn cytundeb rhwng Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Ffrainc yn hwyr yn 1998. Felly, tra

bo gan y Cynulliad bŵer statudol i newid y ddeddfwriaeth hon ar un ochr gyda golwg ar Gymru, dim ond codi nifer y lladd-dai sydd yn cael derbyn carcasau mamogiaid cyfan y gallai a hynny gyda chytundeb yr awdurdodau Ffrengig. Gyda golwg ar wneud hyn yn benodol ar gyfer cynhyrchwyr Cymru, cyfyd gwestiynau hefyd ynghylch gwahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr mewn mannau eraill yn y DU a'r posibilrwydd y byddai hynny'n torri rheolau cymorth gwladwriaeth yr UE.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y mater hwn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar 1 Ebrill 2000.

### Cymorth i Ffermwyr Llaeth

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Christine Gwyther yn bwriadu ei ddarparu yn ystod y 12 mis nesaf i ffermwyr llaeth yng Nghymru? (WAQ4532)

**Christine Gwyther:** Byddaf yn parhau i roi cymorth i'r diwydiant llaeth yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd. Bydd y rhain y cynnwys: dileu codi tâl am archwiliadau glanweithdra llaeth yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, sicrhau y bydd yr iawndal amaeth-arianyddol sydd yn ddyledus i'r sector llaeth eleni yn cyrraedd ffermwyr yn sydyn, rhoi'r strategaeth amaeth-bwyd ar waith, drwy ddatblygu'r prosbectws llaeth a'r cynllun gweithredu llaeth a thrwy ddyfarnu grantiau i brosiectau prosesu llaeth addas.

### Treialon gyda Chnydau a Addaswyd yn Enetig (Effeithiau ar Ffermio Organig)

**Michael German:** A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad ynghylch effeithiau posibl y tri threial arfaethedig â chnydau a addaswyd yn enetig yn Swydd Gaerloyw ar ffermio organig yng Nghymru? (WAQ4682)

**Christine Gwyther:** Y ffermwyr eu hunain a'r diwydiant sydd yn cynnwys y cyflenwyr, y tyfwyr a chynhyrchwyr cnydau a addaswyd yn enetig sydd yn gyfrifol am dyfu cnydau a addaswyd yn enetig. Adwaenir hwy fel y Cynllun Cadwyn Gyflenwi ar Gnydau Amaethyddol Addasedig. Rhaid iddynt sicrhau bod y cnydau'n cael eu tyfu a'u rheoli'n unol â gofynion y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer cnydau a addaswyd yn enetig a defnyddio pla leiddiaid. Mae'r rhain yn mynnu bod y profion yn dilyn cod arfer y Cynllun Cadwyn Gyflenwi ar Gnydau Amaethyddol Addasedig, sydd yn sicrhau eu bod ar wahân ac y rheolir cnydau a addaswyd yn enetig yn ofalus drwy'r amser. Mae'r cod hefyd yn nodi'r pellter gofynnol rhwng cnydau a addaswyd yn enetig a chnydau organig i leihau, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, y risg o groes-beillio.

Mae'r holl gnydau sydd ar fin cael eu tyfu yn y rhaglen arfarnu wedi bod drwy brofion mewn labordai ac ar ddarnau bach o dir. Pennwyd nad oeddent yn cynyddu'r risg i iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid. Aseswyd eu heffaith uniongyrchol ar yr amgylchedd cyfagos hefyd a chadarnhawyd bod hynny'n ddiogel. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau niweidiol felly. Drwy brofion wedi'u rheoli a'u monitro'n ofalus cawn wybod a oes unrhyw ganlyniadau amgylcheddol niweidiol yn sgîl tyfu cnydau a addaswyd yn enetig mewn amodau ffermio.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

### Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau

**Glyn Davies:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cyllid ddatganiad ar gyfrifo a chyllidebu adnoddau a sut y bydd yn effeithio ar wariant cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ4030)

**Glyn Davies:** Sut bydd cyfrifo a chyllidebu adnoddau yn effeithio ar y modd y bydd fformwla Barnett yn cael ei gweithio? (WAQ4031)

**Glyn Davies:** Pa ymgynghori a fu rhwng Edwina Hart a'r Trysorlys ynghylch y ffordd y bydd cyfrifo a chyllidebu adnoddau yn newid fformwla Barnett, a phryd caiff y canlyniadau eu cyhoeddi? (WAQ4033)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Mae cyfrifo a chyllidebu adnoddau'n ffordd newydd i'r llywodraeth gynllunio, rheoli a chofnodi gwariant cyhoeddus. Yn gyffredinol dan y systemau presennol, caiff gwariant cyhoeddus ei gynllunio a'i reoli ar sail arian. Cofnodir y taliadau a'r derbyniadau arian yn y flwyddyn ariannol y cânt eu gwneud neu eu derbyn yn hytrach na'r flwyddyn sydd yn berthnasol i'r taliad. Nid yw'r system yn ystyried arian yn unig gan ein bod yn cynnwys rhai eitemau nad ydynt yn arian yn nhrefniadau rheoli'r adrannau, megis cymeradwyo credyd ar gyfer awdurdodau lleol, ond yn gyffredinol arian sydd yn cyfrif. Ar hyn o bryd, yr ydym yn trin gwario ar eitemau cyfalaf yn yr un modd â gwariant cyfredol. Bydd cyflwyno cyfrifo a chyllidebu adnoddau'n symud Llywodraeth ganolog at system o gynllunio, rheoli a chofnodi gwariant cyhoeddus mewn modd sydd yn debycach i'r byd masnachol.

Y ddau wahaniaeth pwysig rhwng y system ar-sail-arian bresennol a'r system cyfrifo a chyllidebu adnoddau yw:

i. Gwariant cyfalaf. Dan gyfrifo a chyllidebu adnoddau dosberthir cost ased a fydd yn parhau am nifer o flynyddoedd dros oes yr ased ar ffurf ffi dibrisiant (gostyngiad mewn gwerth) blynyddol. Hyn, ynghyd â chost flynyddol y tâl cyfalaf (tâl llog) yw'r tâl cyfalaf ar asedau adrannol, ac mae'n adlewyrchu cost cyfle clymu cronfeydd yn y modd hwn.

ii. Gwariant ac incwm cyfredol. Dan drefn gyfrifo a chyllidebu adnoddau, cofnodir gwariant ac incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi, hyd yn oed os na dderbyniwyd yr arian neu os na thalwyd y bil yn y flwyddyn honno. Adwaenir hyn fel cyfrifeg croniadau.

Pennwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyflwyno cyfrifon adnoddau ers peth amser bellach a bydd y Cynulliad, ynghyd ag adrannau Whitehall, yn cyhoeddi cyfrifon adnoddau ar gyfer 1999-2000.

Yn ôl amserlen bresennol y Trysorlys, cyflwynir cyllidebau adnoddau ar gyfer 2001-02 ymlaen yn dilyn adolygiad gwariant eleni. Bydd cyllideb Cymru'n cael hwb i ystyried cyflwyno'r ffïoedd newydd. Cynigir, o hynny ymlaen, y defnyddir fformwla Barnett ar wahân i'r newidiadau yng nghyllidebau adnoddau a chyfalaf cyfyngiadau gwario adrannol tebyg adrannau Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae'r Trysorlys yn trafod nifer o agweddau o'r drefn cyllidebu adnoddau a'i oblygiadau ar waith yn y gweinyddiaethau datganoledig. Ar ôl pennu'r trefniadau manwl, newidir y datganiad ar bolisi cyllido sydd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyllido gweinyddiaethau datganoledig ac yna caiff ei gyhoeddi eto.

Nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud hyd yn hyn ynghylch sut a phryd y caiff cyllidebu adnoddau ei gyflwyno yn y Cynulliad a gwnaf ddatganiad pellach gyda hyn.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

### Safon Uwch, BTEC, NVQ/GNVQ, y Fagloriaeth Ryngwladol

**Jonathan Morgan:** Faint o fyfyrwyr ôl 16 oed a beth yw cyfran y myfyrwyr hynny sydd yn astudio Safon Uwch, cyrsiau BTEC, NVQ/GNVQ a'r fagloriaeth ryngwladol? (WAQ4652)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Yr oedd 203,516 o fyfyrwyr addysg bellach yn astudio mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn 1997-98. Rhoddir yr wybodaeth am amcanion cymwysterau y myfyrwyr hyn yn y tabl isod

Amcanion cymwysterau, 1997-98 (a)

| | **18 ac iau** | **19 a hŷn** |
|---|---|---|
| Safon Uwch/Uwch Gyfrannol | 9,270 | 5,212 |
| NVQ/GNVQ a BTEC | 29,901 | 28,326 |
| Arall (b) | 41,486 | 144,167 |
| Cyfanswm yr amcanion | 80,657 | 177,705 |

*Ffynhonnell: Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru.*

(a) Yr holl fyfyrwyr mewn addysg bellach, pa ffordd bynnag y'u cyllidir, sydd mewn sefydliadau addysg bellach. Caiff pob myfyriwr ei gyfrif unwaith am bob math o gymhwyster, ond gellir cynnwys y myfyriwr wrth gyfrif mwy nag un math o gymhwyster. Oed y myfyrwyr ar 31 Awst 1997. Tybir bod y myfyrwyr nad oedd wedi nodi eu hoed dros 18.
(b) Yn cynnwys y Rhwydwaith Coleg Agored, myfyrwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu, TGAU a myfyrwyr gyda lefel anhysbys neu na nodwyd eu lefel.

Yr oedd hefyd 24,091 o fyfyrwyr dros 16 mewn ysgolion uwchradd gwladol a 1,505 o fyfyrwyr dros 16 mewn ysgolion annibynnol yn dilyn y cyrsiau hyn:

| **Cwrs astudio** | **Disgyblion** |
|---|---|
| Safon Uwch/Uwch Gyfrannol | 19,855 |
| BTEC | 348 |
| NVQ/GNVQ | 4,818 |
| Arall | 575 |
| Cyfanswm | 25,596 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion.*

a) Yn Ionawr 1998, oed ar 31 Awst. Dim ond unwaith y caiff myfyrwyr sydd yn dilyn amrywiaeth o gyrsiau eu nodi a hynny dan y cwrs sydd ar y lefel uchaf.

Yn ogystal, mae 2,141 o fyfyrwyr addysg bellach wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 1997-98 i astudio'r amcanion cymwysterau canlynol:

Amcanion cymwysterau'r myfyrwyr, 1997-98 (a)

| | **18 ac iau** | **19 a hŷn** |
|---|---|---|
| NVQ/GNVQ | 66 | 121 |
| Arall (b) | 191 | 1,763 |
| Cyfanswm yr amcanion | 257 | 1,884 |

*Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch*

(a) Yr holl fyfyrwyr sydd mewn addysg uwch, sut bynnag y'u cyllidir, sydd mewn sefydliadau addysg uwch. Oed ar 31 Awst 1997. Tybir bod y myfyrwyr nad oedd wedi nodi eu hoed dros 18.
(b) Yn cynnwys Diploma Cenedlaethol Cyffredinol, Diploma Cenedlaethol SOTVEC, City and Guilds, diplomâu eraill sylfaenol, cyrsiau sylfaen lefel addysg bellach, Cymraeg i oedolion a chymwysterau eraill sydd yn is na lefel addysg uwch.

Ni chesglir yr wybodaeth am fyfyrwyr sydd yn astudio'r fagloriaeth ryngwladol yn ganolog.

**Myfyrwyr sydd yn Astudio Cymwysterau Ôl-16 mewn Ysgolion a Cholegau**

**Jonathan Morgan:** Faint o fyfyrwyr a pha gyfran o fyfyrwyr sydd yn astudio cymwysterau ôl-16 mewn ysgolion a cholegau? (WAQ4653)

**Tom Middlehurst:** Mae gwybodaeth am gyfraddau cyfranogiad myfyrwyr rhwng 16 ac 18 oed sydd yn mynd i ysgol neu i goleg ar gael yn Atodiad 1 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 1999'.

Mae copi ohono ar gael yn y Llyfrgell. Bydd y canlyniadau hyn yn cynnwys yr holl fyfyrwyr sydd rhwng 16 ac 18 oed beth bynnag y bônt yn ei astudio.

Yn 1997-98 yr oedd oddeutu 26,000 (23 y cant) o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn ysgolion tra bo 38,200 (34 y cant) mewn addysg llawn amser neu addysg uwch.

**Addysg Ôl-16**

**Jonathan Morgan:** Faint o fyfyrwyr sydd yn mynd ymlaen i astudio am gymwysterau ôl-16, a beth yw cyfran y myfyrwyr hynny o'r grŵp oed perthnasol? (WAQ4654)

**Tom Middlehurst:** Mae gwybodaeth am gyfraddau'r myfyrwyr 16 oed sydd yn mynd i ysgol neu goleg ar gael yn Atodiad 1 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 1999'. Mae copi ohono ar gael yn y Llyfrgell. Bydd y canlyniadau hyn yn cynnwys yr holl fyfyrwyr sydd yn 16 oed beth bynnag y bônt yn ei astudio.

Yn 1997-98 yr oedd oddeutu 14,000 (37 y cant) o bobl ifanc 16 oed yn astudio mewn ysgolion tra bo 12,200 (32 y cant) mewn sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch llawn amser.